



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

ABERTAWA BRO MORGANNWG

**Ymweliadau Hyblyg ym
Mwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe -
adroddiad cleifion ac
ymwelwyr**

**(dilyniant i adroddiad y
CIC yn 2015)**

Hydref 2019

Gwybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe (CIC BA)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Beth wnaethom ni	3
Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni	4
Dysgu o'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym	12
Argymhellion y CIC i wella profiad y claf	14
Cysylltwch â ni	15

Fformatau hygrych

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu archebu copi trwy gysylltu â'n swyddfa (ceir manylion cyswllt ar dudalen 12).

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Gyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe (CIC BA).

CIC Bae Abertawe yw corff gwarchod annibynnol gwasanaethau'r GIG yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ddarparu gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG a chyrrff rheoleiddio i ddarparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rhai sy'n ei reoleiddio, a'r rhai sy'n ei ddefnyddio. Mae CIC BA yn cynrychioli "llais y claf".

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar adroddiad CIC Abertawe Bro Morgannwg yn ymwneud ag ymweliadau hyblyg yn 2015.

Cefndir

Yn 2015, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIP ABM) yn ceisio cyflwyno ymweliadau hyblyg ledled wardiau cleifion mewnol i oedolion o fewn 4 prif ysbyty ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i deuluoedd wrth ymweld â'u hanwyliaid yn yr ysbyty.

Cyn unrhyw newidiadau, fe gynhaliodd CIC ABM arolwg er mwyn casglu barn 170 o gleifion a'u teuluoedd yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig.

Cyn 2015, roedd ymweliadau yn cael eu cyfyngu i 2 awr yn y prynhawn a 2 awr gyda'r nos. Roedd y cynigion ar gyfer ymweliadau hyblyg yn golygu y byddai croeso i ymwelwyr rhwng 11am ac 8pm.

Croesawodd cleifion a theuluoedd y newidiadau arfaethedig hyn.

Cyflwynwyd ymweliadau hyblyg a chytunodd y Bwrdd Iechyd a'r CIC i ailedrych ar y trefniadau yn ymwneud ag ymweliadau hyblyg ar ôl cyfnod o 3 blynedd.

Yn dilyn newid mewn ffiniau ym mis Ebrill 2019, mae ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Felly, ni chynhaliwyd ymweliadau ag ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer yr adroddiad hwn.

Wrth i aelodau'r CIC gynnal ymweliadau monitro â wardiau ysbytai yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi sylwi bod rhai wardiau wedi newid amseroedd ymweld, h.y. 1pm i 8pm neu canol dydd i 8pm.

Fe wnaethom siarad â chleifion ac ymwelwyr i gasglu eu barn ar ymweliadau hyblyg a'r newidiadau ychwanegol hyn. Cwblhawyd cyfanswm o 96 o arolygon gan gleifion ac ymwelwyr ar gyfer yr adroddiad hwn.

Beth wnaethom ni

Fe wnaeth y CIC ymweld ag ysbytai Castell-nedd Port Talbot, Treforys a Singleton yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2019. Roeddem am gael gwybod sut yr oedd pobl yn teimlo am yr oriau ymweld presennol ac a fyddai unrhyw newidiadau i'r amseroedd hyn yn effeithio arnynt.

Yn ystod eu cyfnod ar y wardiau, edrychodd aelodau'r CIC i weld a oedd amseroedd ymweld yn cael eu harddangos ac a oedd yr amseroedd hyn yn dal i fod rhwng 11 - 8pm.

Roedd yr aelodau hefyd eisiau darganfod beth oedd teimladau cleifion ac ymwelwyr am:

- Amseroedd ymweld yn effeithio ar ofal cleifion
- Amseroedd ymweld yn effeithio ar gyfnodau gorffwys
- Ymweld yn ystod amseroedd bwyd

Mae ein hadroddiad wedi'i rannu'n dair adran, un adran ar gyfer pob ysbyty. Gofynnwyd cwestiynau penodol yn yr arolwg a dangosir y canlyniadau isod.


Gwelir sylwadau cleifion ac ymwelwyr yn y blychau porffor.

Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni:

Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Bu CIC Bae Abertawe yn ymweld â wardiau C, D ac E. Cwblhawyd cyfanswm o 26 holiadur.

Roeddem am gael gwybod pa amseroedd ymweld oedd yn well gan gleifion a'u hymwelwyr. Dangosir y canlyniadau yn y graff canlynol:



Dywedodd y mwyafrif wrthym fod yn well ganddyn nhw amseroedd ymweld rhwng 11am ac 8pm.

Dywedodd cleifion wrthym fod croeso i deulu a ffrindiau helpu yn ystod amseroedd bwyd.

- ☺ Teulu yn dod â bwyd
- ☺ Mae'r teulu ar gael i gynorthwyo adeg amseroedd bwyd
- ☺ Mae fy ngŵr yn torri fy mwyd
- ☺ Rwyf wedi sylwi bod perthynas claf yn eu bwydo

Dyweddod 8 claf wrthym nad oeddent yn hoffi bwyta o flaen ymwelwyr.

Dyweddod 10 claf wrthym eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt amser i orffwys oherwydd yr oriau ymweld.

Dyweddod mwyafrif y cleifion wrthym, ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, nad oedd ymwelwyr wedi'u cyfyngu i ddau berson i bob gwely (roedd hwn yn argymhelliad ym Mholisi Ymweliadau Hyblyg 2015 y Bwrdd Iechyd).

Roeddem am ddarganfod a oedd y cleifion a oedd wedi'u cyfyngu i'w gwelyau yn teimlo'n gyffyrddus yn gofyn i staff am help i ddefnyddio padell wely neu gomôd tra bod ymwelwyr yn bresennol. Dyweddod 11 o gleifion wrthym na fyddent yn teimlo cywilydd ond dyweddod 7 wrthym y byddent.

Gofynnwyd i gleifion ddweud wrthym beth oedd eu barn am yr amseroedd ymweld rhwng 11 - 8pm, a dyma'r sylwadau:

- 🗨️ Ar y cyfan, credaf mai gorau po hiraf yw'r oriau ymweld
- 🗨️ Rwy'n credu bod yr amseroedd ymweld estynedig yn beth da gan ei bod yn haws i'm gŵr a'm mab ymweld â mi
- 🗨️ Yn hapus gyda'r oriau ymweld

Dyweddod y mwyafrif wrthym eu bod yn mwynhau'r amser ychwanegol gyda theulu a ffrindiau ac yn cytuno bod yr awyrgylch yn well pan oedd ymwelwyr yn bresennol.

- 🗨️ Rwyf wrth fy modd gydag ymwelwyr
- 🗨️ Yn mwynhau'r amser hyblyg

Dyweddod mwyafrif y cleifion wrthym hefyd eu bod yn teimlo'n gyffyrddus yn gofyn i'w hymwelwyr adael, ond roedd nifer fach yn teimlo na allent wneud hynny.

Pan ofynnwyd i gleifion a oeddent yn teimlo bod yr amseroedd ymweld hirach yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff, roedd eu hymatebion yn gymysg.

- ☺ Gall perthnasau baratoi cleifion ar gyfer mynd i'r gwely
- ☺ Trwy ganiatáu i'r teulu ymweld adeg amseroedd bwyd, mae'n rhyddhau staff i wneud pethau eraill

Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd yn ymweld â chleifion am eu barn.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymwelwyr wrthym nad oeddent yn teimlo bod disgwyl iddynt ymweld am gyfnodau hirach.

Dyweddodd pob un o'r ymwelwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o wybodaeth am eu hanwylyd oherwydd eu bod yn bresennol ar y ward ar adegau gwahanol yn ystod y dydd.

Dyweddodd rhai ymwelwyr wrthym eu bod wedi sylwi:

- ☺ Fod ganddyn nhw mwy na 2 ymwelydd i bob gwely

Dyweddodd mwyafrif yr ymwelwyr wrthym fod:

- ☺ Parcio yn broblem enfawr o ystyried maint yr adeilad


Dyweddodd hanner yr ymwelwyr y siaradwyd â nhw eu bod yn credu bod yr amseroedd ymweld hirach yn rhoi mwy o bwysau ar staff y ward.

Ysbyty Treforys

Bu CIC Bae Abertawe yn ymweld â wardiau A, B, S, T, V ac W. Cwblhawyd cyfanswm o 52 holiadur. Yn ystod ein hymweliad, nodwyd bod amseroedd ymweld wedi newid i 1 - 8pm.

Roeddem am gael gwybod pa amseroedd ymweld oedd yn well gan gleifion a'u hymwelwyr:

Pa amseroedd ymweld fyddai'n well gennych?



Datgelodd ychydig llai na hanner yr ymatebion nad oedd cleifion a'u teuluoedd yn dangos unrhyw ffafriaeth naill ffordd na'r llall ond dywedodd 15 o gleifion eu bod yn ffafrio ymweliadau rhwng 1pm ac 8pm.

Dywedodd mwyafrif y cleifion (47) wrthym fod croeso i deulu a ffrindiau helpu amser bwyd.

☺ Maent wedi caniatáu i mi fod yma pan ddaeth i mewn y tro cyntaf gan fod ganddo anawsterau dysgu a ddim yn fodlon siarad â staff

☺ Y wraig yn gallu fy helpu

Nid oedd 9 claf fodd bynnag yn ymwybodol bod croeso i deulu helpu yn ystod amser bwyd.

☺ Heb weld ymwelwyr yn ystod amser bwyd

☺ Byddai'n ddefnyddiol petai rhywun yn dod i helpu amser cinio

☺ Ddim yn ymwybodol o'r system

☺ Ddim yn ymwybodol bod y teulu yn gallu cynorthwyo'r claf yn ystod amser bwyd

☺ Ddim yn ymwybodol y gallem fod gyda'r claf amser bwyd


Dyweddod y mwyafrif o'r cleifion wrthym y byddent yn bwyta o flaen teulu a ffrindiau ac y byddai rhai yn gofyn iddynt eu helpu gyda'u bwyd yn ystod prydau bwyd.

Dyweddod bron i hanner y cleifion (17) a atebodd y cwestiwn, eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt amser i orffwys oherwydd yr oriau ymweld.


Dyweddod mwyafrif y cleifion wrthym eto nad oedd ymwelwyr wedi'u cyfyngu i ddau berson i bob gwely.


Dyweddod bron i hanner y cleifion (19) wrthym y byddent yn teimlo cywilydd gofyn i ddefnyddio padell wely neu gomôd tra bod ymwelwyr yn bresennol pe bai angen.

Roedd yn well gan y mwyafrif o'r cleifion ymweliadau hyblyg yn hytrach na'r hen ddull o ymweld. Unwaith eto, fe wnaethant ddweud wrthym fod yr amser ychwanegol gyda theulu a ffrindiau yn ychwanegu at awyrgylch gwell.

 Mae ymwelwyr yn bendant yn gwella hwyliau. Byddai'n ddefnyddiol cael ystafell ddydd i'w defnyddio os ydych chi'n gallu symud. Yn newid o ran golygfa i'r claf ac yn well i'r ymwelwyr, yn hytrach nag eistedd o amgylch gwely. Mae hefyd yn amharu llai ar gleifion a staff eraill ar y ward. Yn yr un modd, byddai cael lle y tu allan yn golygu na fyddai cleifion ac ymwelwyr yn loetran yn y brif fynedfa.

Cawsom ymatebion cymysg pan wnaethom ofyn i gleifion a oeddent yn teimlo y gallent ofyn i'w hymwelwyr adael, roedd rhai yn teimlo y gallent a rhai yn teimlo na allent.

 Dydw i ddim yn gofyn iddyn nhw adael, byddai hynny'n anghwrtais

 Rwy'n teimlo y byddai'r oriau ymweld yn dibynnu ar salwch y claf. Pe byddent yn wael, ni fyddent am i'r ymweliad fod yn rhy hir. Fodd bynnag, rwyf wedi gwella'n dda ac yn mwynhau cael ymwelwyr ar unrhyw adeg o'r dydd.

Pan ofynnwyd i gleifion a oeddent yn teimlo bod yr amseroedd ymweld hirach yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff, roedd eu hymatebion yn gymysg.

- 🗣️ Yn tynnu'r pwysau oddi ar y staff
- 🗣️ Bydd ymwelwyr sydd gyda'r cleifion yn sicr o helpu staff mewn rhyw ffordd gan eu bod yn cadw llygad allan
- 🗣️ Rwy'n dychmygu fod yna lawer o ymweliadau trwy gydol y dydd sy'n golygu na all nyrsys gario 'mlaen gyda'u dyletswyddau

Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd yn ymweld â chleifion am eu barn.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymwelwyr wrthym nad oeddent yn teimlo bod disgwyl iddynt ymweld am gyfnodau hirach.

- 🗣️ Mae cyfnodau hirach yr ymweliadau dyddiol yn caniatáu i mi drefnu ymweliadau o amgylch gwaith

Dyweddodd pob un o'r ymwelwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o wybodaeth am eu hanwylyd oherwydd eu bod yn bresennol ar y ward ar adegau gwahanol yn ystod y dydd.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymwelwyr wrthym ei bod yn anodd parcio yn ystod y dydd yn ysbyty Treforys.

- 🗣️ Parcio yn anodd

Derbyniwyd sylwadau cymysg gan ymwelwyr pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod yr amseroedd ymweld hirach yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff y ward:


- 🗣️ Mae ymwelwyr yn helpu adeg amseroedd bwyd
- 🗣️ Gall ymwelwyr helpu gyda gofal. Mae'n hanfodol ein bod ni'n cymryd rhan
- 🗣️ Mae amseroedd ymweld hirach yn rhoi mwy o bwysau ar staff

Ysbyty Singleton

Bu CIC Bae Abertawe yn ymweld â wardiau 3, 4, 6, 7 ac 8. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur.

Roeddem am gael gwybod pa amseroedd ymweld oedd yn well gan gleifion a'u hymwelwyr:

Pa amseroedd ymweld fyddai'n well gennych?



O'r ymatebion a dderbyniwyd, datgelodd ychydig llai na hanner y cleifion a'u teuluoedd eu bod yn well ganddynt yr amseroedd ymweld hyblyg gwreiddiol rhwng 11am - 8pm.

 Gorau po fwyaf hyblyg

Dyweddodd cleifion wrthym fod croeso i deulu a ffrindiau helpu amser bwyd.

Dyweddodd 6 chlaf wrthym nad oeddent yn hoffi bwyta o flaen ymwelwyr.


Dyweddodd 8 claf wrthym eu bod yn teimlo nad oedd ganddyn nhw amser i orffwys oherwydd yr oriau ymweld.

Dyweddodd cleifion ar wardiau 7 ac 8 wrthym fod staff yn cadw at 2 ymwelydd i bob gwely, ond dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oedd ymwelwyr wedi'u cyfyngu i ddau berson i bob gwely.


Dyweddodd hanner y cleifion wrthym y byddent yn teimlo cywilydd defnyddio padell wely neu gomôd tra bod ymwelwyr yn bresennol pe bai angen.

Roedd yn well gan y mwyafrif o'r cleifion ymweliadau hyblyg yn hytrach na'r hen ddull o ymweld. Unwaith eto, fe wnaethant ddweud wrthym fod yr amser ychwanegol gyda theulu a ffrindiau yn ychwanegu at awyrgylch gwell.


Dim ond hanner y cleifion a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n gyffyrddus yn gofyn i'w hymwelwyr adael.

 Mae'n hyfryd cael ymwelwyr ond mae rhai yn aros yn rhy hir


Pan ofynnwyd i gleifion a oeddent yn teimlo bod yr amseroedd ymweld hirach yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff, roedd eu hymatebion yn gymysg.

 Mae'n anodd i staff os oes llawer o ymwelwyr gan gleifion o gwmpas yn ystod y rowndiau ward

Dyweddodd cleifion wrthym hefyd:

 Mae ychydig yn anodd ymdopi â sŵn a chynnwrf ymwelwyr. Mae'n peri pryder i mi

 Mae'r ward yn swllyd oherwydd gweithgaredd cyson

 Gall fod hyd at 12 o ymwelwyr i gyd mewn bae bach, sy'n cyfateb i 18 o bobl mewn ardal fach sydd hefyd â gwelyau ac offer swmpus. Mae hyn yn peri straen i mi yn ystod amseroedd bwyd.

Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd yn ymweld â chleifion am eu barn.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymwelwyr wrthym nad oeddent yn teimlo bod disgwyl iddynt ymweld am gyfnodau hirach.

Dyweddodd pob un o'r ymwelwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o wybodaeth am eu hanwylyd oherwydd eu bod yn bresennol ar y ward ar adegau gwahanol yn ystod y dydd.

Dyweddodd mwy na hanner yr ymwelwyr wrthym eu bod wedi sylwi bod sŵn cyson ar y ward.

Dyweddodd rhai ymwelwyr wrthym eu bod wedi sylwi bod mwy na 2 ymwelydd wrth ochr pob gwely.

Dyweddodd yr holl ymwelwyr wrthym ei bod yn anodd parcio yn ystod y dydd yn Ysbyty Singleton.

Dyweddodd ymwelwyr wrthym eu bod yn teimlo bod yr amseroedd ymweld hirach yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff.

Dysgu o'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y profiad yn ymwneud ag ymweliadau o safbwynt y claf a'r ymwelydd. Mae'r canlyniadau'n tynnu sylw at rai materion sy'n effeithio ar gleifion ac yn dangos nad yw'r ymweliad bob amser yn brofiad cadarnhaol.

Dyweddodd llawer o gleifion ac ymwelwyr wrthym eu bod ar y cyfan yn ymwybodol o ymweliadau hyblyg er nad oeddent wedi gweld hysbysiadau ar y ward yn dangos amseroedd ymweld.

Nodwyd yn ystod yr ymweliadau bod ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn dal i weithredu'r amseroedd ymweld hyblyg a gytunwyd sef 11am - 8pm. Roedd wardiau yn ysbyty Treforys wedi newid yr amseroedd ymweld i 1 - 8pm a'r wardiau yn ysbyty Singleton wedi newid amseroedd ymweld i ganol dydd - 8pm.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a'r ymwelwyr a arolygwyd yn gefnogol i'r trefniadau yn ymwneud â pholisi ymweliadau hyblyg gyda bron pob un yn nodi eu bod yn well ganddynt yr amseroedd ymweld rhwng 11am - 8pm, fel y'u cyflwynwyd yn wreiddiol gan y Bwrdd Iechyd yn 2015.

Nododd yr aelodau fod wardiau yn ysbytai Treforys a Singleton ar gau i ymwelwyr yn ystod amseroedd bwyd. Nid yw hyn yn cyd-fynd â pholisi ymweliadau hyblyg y Bwrdd Iechyd.

Nid oedd pob claf na'u hymwelwyr yn ymwybodol y gallent ymweld yn ystod amseroedd bwyd. Roedd yn ymddangos bod hyn yn newid o ward i ward yn ysbytai Treforys a Singleton. Dywedodd cleifion yn y 3 phrif ysbyty wrthym:

- ☺ Dylai ymwelwyr gael helpu yn ystod amseroedd bwyd os oes angen
- ☺ Mae'r ymweliadau hyblyg yn caniatáu iddynt fwynhau amser ychwanegol gyda'u hymwelwyr
- ☺ Mae'r awyrgylch ar y ward yn hapusach pan fo ymwelwyr yno
- ☺ Fel arfer mae mwy na 2 ymwelydd wrth ochr pob gwely

Dywedodd nifer fechan o gleifion wrthym:

- ☺ Nid oes ganddynt unrhyw amser i orffwys
- ☺ Maent yn teimlo gormod o gywilydd i ofyn am badell gwely neu gomôd o flaen ymwelwyr
- ☺ Gall amseroedd ymweld hir effeithio ar y gofal y mae cleifion yn ei gael gan staff

Dywedodd cleifion yn y 3 phrif ysbyty wrthym:

- ☺ Mae'n anodd parcio

- ☺ Mae diweddariadau oddi wrth staff am ofal eu hanwyliaid yn fwy tebygol
- ☺ Gellir cynllunio ymweliadau yn well

Argymhellion

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd:

1. Fynd i'r afael â'r diffyg cysondeb yn yr amseroedd ymweld ar draws wardiau ac ysbytai gan y gallai hyn beri dryswch i gleifion ac ymwelwyr, yn enwedig os oeddent yn cael eu trosglwyddo i ward neu ysbyty arall gydag oriau ymweld gwahanol.
2. Sicrhau bod cleifion ac ymwelwyr yn ymwybodol y gall y claf dderbyn cymorth gan ymwelwyr amser bwyd.
3. Mae amrywiad yn yr oriau ymweld a gynigir i gleifion ac ymwelwyr yn cael effaith ar brofiad y claf, y gofalwr a'r staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i ystyried adborth oddi wrth gleifion ac ymwelwyr wrth gyflwyno oriau ymweld hyblyg newydd.
4. Os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r polisi ymweliadau hyblyg, gofynnir i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r amseroedd ymweld ar gyfer pob ward yn benodol. Gellir cyflawni hyn trwy:
 - a. Sicrhau bod posteri sy'n dangos amseroedd ymweld wedi'u harddangos
 - b. Diweddaru gwefan y Bwrdd Iechyd cyn gynted â phosibl yn dilyn y newidiadau
5. Ceisio datblygu 'Siarter Ymwelwyr' i roi gwybodaeth i ymwelwyr am yr hyn i'w ddisgwyl wrth ymweld â'r ysbyty a chanllawiau clir ar ymddygiad priodol ar wardiau. h.y.
 - a. dim ond dau ymwelydd wrth ymyl pob gwely
 - b. cadw lefelau sŵn i lawr i alluogi cleifion ar y ward i orffwys.

Cysylltwch â ni



Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe
Llawr Cyntaf
Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla
Castell-nedd
SA11 3SU



01639 683490



swanseabay@waleschc.org.uk



www.communityhealthcouncils.org.uk/SB



@SwanseaBayCHC